Archwilio Cymru
Audit Wales

Mae'r angen am dai fforddiadwy yn amlwg, gyda perchen neu rhentu tŷ yn mynd yn llai a llai fforddiadwy.

Ers 1997, mae pris tŷ cyfartalog yng Nghymru wedi dyblu o 3 gwaith yr incwm blynyddol cartref cyfartalog i 6 gwaith yn 2022.

Ac yn y farchnad rhent, gall cartrefi yng Nghymru sydd yn y chwarter tlotaf angen gwario o leiaf 45% o'u hincwm gros i fforddio'r cost rhent cyfartalog.

Er mwyn ymateb i'r angen yma, amcangyfrifir bod angen 3,500 o dai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru yn flynyddol ar hyn o bryd.

Cyflawnodd y Llywodraeth Cymru blaenorol ei hymrwymiad i ddarparu 20,000 mwy o dai fforddiadwy rhwng 2016 a 2021, ond roedd just o dan 40% o rhain yn werthiannau pris y farchnad trwy'r cynllun Cymorth i Brynu. Mae nawr gan Llywodraeth Cymru darged newydd, mwy penodol, i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel i'w rhentu.

I gyrraedd y targed llawer mwy heriol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau fel pwysau'r gweithlu a chostau, anghenion cynllunio, cydbwyso adeiladu gyda ffactorau amgylcheddol, a mwy.

Gyda'r targed yma'n rhan allweddol o gynlluniau Llywodraeth Cymru am Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Archwilio Cymru yn edrych ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Ac ry'n ni am glywed eich barn chi yn ein gwaith. Mae dolenni i'n harolwg ar gael trwy ddilyn y dolenni ar ein cyfryngau cymdeithasol ac ein gwefan.